| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **3 MEDI 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – UNIVERSITY PLAICE, FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo University Plaice, 21 Ffordd Caergybi, Bangor uchaf, LL57 2EU oddi wrth Mr Mehmet Ali Usal a Miss Nia Haf Davies . Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Lleolir yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ym Mangor Uchaf, ac fe ddarparir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo.
Fe fu i'r Is Bwyllgor hwn ganiatáu cais i amrywio oriau gweithgareddau trwyddedig ar yr eiddo hwn eisoes ar y 30 o Fedi 2013. Pryd hynny fe ymestynnwyd oriau darparu lluniaeth hwyr y nos o 02:30 y bore ar nos Wener a nos Sadwrn i 03:30.

Gofynnir am ymestyniad o oriau gweithgaredd trwyddedig ac agor fel a ganlyn -

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul/Mercher** | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 03:00 |
| **Iau** | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 03:30 |
| **Gwen/Sad** | 23:00 - 03:30 | 23:00 – 03:30 |

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebiad |
| Cyngor Dinas Bangor | E bost - gwrthwynebiad |
| Aelod Cyngor Dinas Bangor | E bost - gwrthwynebiad |
| Preswylydd cyfagos | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | E bost - gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

Yn gyffredinol , mae pob un ymatebydd i'r cais hwn yn cyfeirio at y ffaith fod yr eiddo wedi derbyn ymestyniad oriau gweithgareddau trwyddedig eisoes, a bod ymestyniad pellach yn mynd tu hwnt i oriau eiddo trwyddedig cyffelyb ym Mangor.

### Aelodau Lleol

Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu gan ddau o aelodau lleol , ar sail yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn.

**Aelodau Cyngor Dinas Bangor**

Derbyniwyd 2 bost yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus; a fod yr eiddo yn agos i gylchfa breswyl

**Preswylydd Cyfagos**

Mae'r preswylydd yn byw yn agos iawn i'r eiddo ac yn pryderu fod yr ymestyniad mewn oriau yn mynd i danseilio'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Nid yw'r Heddlu yn cefnogi'r cais , gan fod potensial i'r ymestyniad oriau ar nos Sul ac yn ystod yr wythnos danseilio'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Gwrthwynebir y cais am ymestyniad oriau. Nodir y byddai'r Heddlu yn cefnogi cais am amser ychwanegol hyd at 03:00 ar nos Iau yn unig; i gyd fynd ac oriau eiddo trwyddedig cyffelyb ym Mangor.

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.